

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn
Neuadd Bentref Llanelltyd
Nos Fawrth, Hydref 9, 2018 am 7.30 o'r gloch.**

Presennol: Cyngorwyr: Geraint Rowlands (Cadeirydd), John Hughes, Llinos Williams, Gareth Ellis, Carwyn Evans, Simon Evans. Hefyd Peredur Jenkins, Henry M. Edwards.

1. Ymddiheuriadau: Elfed ap Gomer, Gethin Williams,

2. Datgan diddordeb:

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Medi 11, 2018

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

4. Materion yn codi o'r cofnodion Medi 11, 2018

Eitem 7.a. Llythyr (14/9/2018) oddi wrth y Parc yn rhoi gwybod bydd sioe deithio yn Aberdyfi.

Aeth Geraint Evans i'r cyfarfod yn Aberdyfi. Cafwyd adroddiad ganddo ar y cyfarfod ac awgrymodd yr aelodau i fynychu cyfarfodydd o'r fath.

Eitem 10.a. Rhoddwyd gwybod (14/9/2018) i Gwasanaeth Eiddo, Cyngor Gwynedd bod prydles y Toiledau wedi dod i ben ar Awst 28, 2018 ac mae angen ei adnewyddu.

Holwyd Gwasanaeth Trethi, Cyngor Gwynedd (14/9/2018) os mae'n bosib iddynt ddileu ein taliad misol am y cyfnod bydd y Toiledau ar gau.

Llythyr (28/9/2018) oddi wrth Cymhorthydd Trethi Annomestig, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod nid yw'n bosib dileu'r costau treth annomestig.

Derbyniwyd goriadu'r Toiledau gan Janet Edwards.

5. Materion Ariannol

a. Llythyr (24/9/2018) oddi wrth BDO yn rhoi gwybod os na fydd yr archwiliad wedi'i orffen a dim barn archwilio wedi'i chyhoeddi cyn 30 Medi 2018, mewn perthynas â'r Datganiadau Cyfrifo am y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2018, mae angen i ni ei gyhoeddi. Amgáu mae hysbysiad yn nodi hyn ac angen ei arddangos am 14 diwrnod o 30 Medi 2018 mewn lle amlwg. Rhoddwyd yr hysbysiad ar hysbysfyrdau Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION HYDREF 9, 2018

Derbyniwyd cwyn oddi wrth unigolyn yn Bontddu mai dim ond hysbysiad yn y Gymraeg rhoddwyd ar yr hysbysfwrdd. Penderfynwyd rhoi hysbysladau yn ddwy iaith.

b. Anfonwyd llythyr (26/9/2018) i BDO yn rhoi gwybod iddynt nad ydym wedi derbyn eu hadroddiad.

c. Llythyr (27/9/2018) oddi wrth BDO yn rhoi gwybod maent yn bwriadu amodi archwiliad y Cyngor oherwydd mae'r Archwilydd Mewnol wedi nodi nad ydym wedi cofnodi adolygiad o'r asesiad risg yn ystod y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2018.

Maent yn cynnig i ni drafod y mater ymhellach neu os rydym yn credu ein bod wedi cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol a rhoi gwybod iddynt cyn gynted â phosibl gan nodi'n glir y rheswm pam ein bod yn credu ein bod wedi cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ac atodi unrhyw ddogfennaeth berthnasol i brofi hyn. Bydd uwch aelod o'r tîm yn cysylltu â ni i drafod y materion ymhellach. Maent angen i ni roi gwybod o fewn 1 diwrnod calendr ein bwriad, neu bydd yr amod yn cael ei osod. Mae hyn yn torri rheoliad 4 Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014 sy'n gofyn bod cynghorau'n darparu trefniadau ar gyfer rheoli risgiau.

Ni dderbyniwyd eu cynnig i drafod y mater ymhellach. Nid oes fwy o wybodaeth i roi iddynt.

ch. Llythyr (24/9/2018) oddi wrth HSBC Safeguard Officer, Llundain. Maent angen dyddiad cyfarfod gyda'r Clerc i gael gwybodaeth gywir a diweddaraf y Cyngor. Trefnwyd cael cyfarfod ar 27/9/2018.

Yn y cyfarfod cafwyd, a'r cwestiynau roeddwn yn ei gael, roeddwn dan yr argraff doedd y ferch ddim yn gwybod beth oedd cyngor gymuned. Maent angen gwybodaeth (Cofnodion, Cyfansoddiad, Cyfrifon) y Cyngor yn Saesneg. Eglurwyd bod gwaith y Cyngor yn cael ei wneud yn Gymraeg ond er hynny roedd yn mynnu cael y wybodaeth yn Saesneg. Daeth y cyfarfod i ben trwy awgrymu iddi i fi fynd i banc Dolgellau am arweiniad a chytunwyd ar hyn. Cafwyd wybod gan staff Dolgellau mae rhaid ini roi y wybodaeth yn Saesneg ac o fewn 90 diwrnod o'r dyddiad y llythyr neu bydd ein cyfrif yn cau fel mae'n cael ei roi yn y llythyr.

Dywedodd y ferch mae angen i ni adnewyddu ein Mandad.

Anfonodd Elfed ap Gomer lythyr (30/9/2018) i Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am ein sefyllfa gyda HSBC Safeguard. Dywedodd nid yw hyn yn dderbyniol yn enwedig i sefydliad democratic swyddogol.

Llythyr ateb (2/10/2018) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod nid yw Deddf Iaith Gymraeg yn cynwys banciau preifat ac mae hyn yn golygu does dim gofynion cyfreithiol i'r banciau gweithio trwy'r iaith Gymraeg.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION HYDREF 9, 2018

Anfonwyd i'r aelodau (4/10/2018) Cofnodion Gorffennaf 2018 yn Saesneg, Rheolau Cyllidol yn Saesneg, Incwm 2017-18 yn Saesneg a Gwariant 2017-18 yn Saesneg. Bydd angen rhoi sylw iddynt.

Penderfynwyd rhoi copi o'r llythyr i Peredur Jenkins iddo gael eglurhad ar ei gynwys oddi wrth Banc HSBC Dolgellau.

d. Bil (18/9/2018) am £430.00 oddi wrth John A. Owen am agor bedd ar gyfer gwasanaeth 22/9/2018.

Penderfynwyd talu'r bil.

dd. Siec am £1,130.00 oddi wrth D.H. Gabriel. Taliad at Mary Elizabeth Dillon - claddedigaeth cyntaf £650 + hawl claddu £480 = £1,130.00. 2/10/2018.

e. Bil (1/10/2018) am £225.00 oddi wrth Janet Edwards am lanhau a gofalu am Toiledau Bontddu am y misoedd Gorffennaf, Awst a Medi.

Penderfynwyd talu'r bil.

f. Anfoneb (3/10/2018) am £62.10 oddi wrth Elfed ap Gomer at gostau teithio i gynrychioli'r Cyngor yng Nghynhadledd Flynyddol Un Llais Cymru 2018.

Penderfynwyd talu'r bil.

ff. Llythyr (2/10/2018) oddi wrth Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol gyda eu dogfen drafft Adroddiad Blynyddol 2019/20. Mae'r wybodaeth yw cael ar [Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2019](#)

g. Llythyr (6/10/2018) oddi wrth Canolfan y Pentref Llanelltyd. Maent angen cymorth ariannol i gael 'defibulator' i Llanelltyd.

h. Bil (7/10/2018) am £570.00 oddi wrth J. Ll. Williams am glirio llwybrau ardal Bontddu 2018.

Penderfynwyd talu'r bil ac anfon y bil ymlaen i Gwasanaeth Amgylchedd, Cyngor Gwynedd am ad-daliad.

i. Balans yn y banc ar 29 Medi, 2018: £10,575.47.

l. Gwariant sy'n debygol am weddill y flwyddynn gan ddefnyddio ffigyrau 5/10/2017 – 31/3//2018 fydd £3,103.14. Mae £3,103.14 < £10,575.47, felly ni fydd risg o gorwario.

6. Mynwent Llanelltyd

a. Cynhaliwyd gwasanaeth claddedigaeth y diwedd ar Mary Elizabeth Dillon ar 21/9/2018.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Llythyr (12/9/2018) a dogfennau ymwneud a 'Chynllun Datblygu Lleol Eryri – Ymgynghoriad ar y materion a godwyd o'r Archwiliad Cyhoeddus'. Bydd ymgynghoriad cyhoeddus tan Hydref 25, 2018. Mae dogfennau ar gael mewn llyfrgelloedd cyhoeddus.

8. Gohebiaeth

a. Llythyr (12/9/2018) oddi wrth Cist Gwynedd gyda phoster ei roi ar wefan y Cyngor yn rhoi gwybod am grant sydd ar gael i sefydliadau ymwneud a chwaraeon a ffitrwydd. Rhoddwyd y poster ar hysbysfyrddau Llanelltyd a Bontddu.

b. Llythyr (18/9/2018) oddi wrth Post Frenhinol yn rhoi gwybod am lythyrau twyllo sydd ar fod. Amgáu mae poster i roi ar hysbysfyrddau. Rhoddwyd y poster ar hysbysfyrddau Llanelltyd, Taicynhaef a Bontddu.

c. Llythyr (20/9/2018) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am eu cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd bydd yn cael ei gynnal yn Llyfrgell Rydd, Dolgellau ar ddydd Mercher, Medi 26, 2018 am 7.00yh. Bydd cyflwyniad yn cael ei roi gan Swyddog o Enwebiad Safle Treftadaeth Byd Llechi Cymru. Amgáu mae Agenda, Cofnodion Pwyllgor Ardal Meirionnydd cynhalwyd ar Fai 23, 2018, Cofnodion Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol ar Mehefin 8, 2018, ac adroddiad Panel Adolygu Annibynnol ar Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru – Canfyddiadau ac Argymhellion Amlinellol.

Rhai argymhellion sydd gan Panel Adolygu Annibynnol ar Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru – Canfyddiadau ac Argymhellion Amlinellol:

Dylai fod mwy o eglurder ynghylch y pwerau sydd ar gael i gynghorau cymuned a thref.

Dylid pob Clerc feddu ar gymhwyster proffesiynol a dylid disgwyl CILCA (Certificate in Local Council Administration) fel y cymhwyster isafol disgwylidig. Dylid penodi clerod o restr genedlaethol gymeradwy.

Dylid Llywodraeth Cymru sicrhau bod pecyn craidd o hyfforddiant yn orfodol ar gyfer pob cynghorydd fel gofyniad i dderbyn y swydd.

Dylid Awdurdodau Lleol gael fforymau partneriaeth gyda chynghorau cymuned a thref.

Ni ddylid cyfethol Cynghorwyr am fwy nag un tymor olynol.

Dylid fod yn ofynnol yn gyfreithiol i gynghorau cymuned a thref gynnal cyfarfod cyhoeddus flynyddol.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION HYDREF 9, 2018

ch. Llythyr (21/9/2018) oddi wrth Uned Gyfathrebu ac Ymgysylltu, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am ymgysylltu cyhoeddus 'Pa wasanaethau sy'n bwysig i chi' i roi cyfle i drigolion a sefydliadau rhoi gwybod pa wasanaethau sy'n bwysig i wario arnynt o 2019 ymlaen. Mae holiadur a chyfarfodydd cyhoeddus. Mae angen ymateb cyn Tachwedd 2. Amgau mae posteri i'w arddangos a holiadur. Rhoddwyd poster ar hysbysfyrddau yn Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu.

d. Llythyr (20/9/2018) oddi wrth Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn rhoi gwybod bydd colofnau golau stryd yn cael eu gosod ar yr A496 yn Bontddu.

9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

a. Gyda'r toriadau yn y gyllideb gan Gaerdydd bydd toriadau yn y gwasanaethau mae Cyngor Gwynedd yn ei roi. Awgrymwyd i'r aelodau gwblhau'r ffurflen 'Pa wasanaethau sy'n bwysig i chi'. (Eitem 8.ch.).

b. Nid yw'r cynllun y maes parcio'r Ysgol wedi ei gwblhau oherwydd anghytundeb rhwng Priffyrdd ac Archwilydd ynglŷn â diogelwch dau le parcio..

c. Mae'r cynllun i gael llinellau melyn wrth y gyffordd i'r neuadd yn cael sylw gan Adran Gyfraith, Cyngor Gwynedd ac wedyn mi fydd ymgynghoriad cyhoeddus.

ch. Bydd Adran Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn mesur cyflymder ceir ayyb wrth yr Ysgol. Ni fydd arwydd '20mya' yn cael ei osod ar y ffordd oherwydd categori'r ffordd. Bydd plant yr Ysgol yn cael cyfle i gynllunio arwydd i roi ar ochr y ffordd.

10. Materion Brys

Penderfynwyd rhoi gwybod i Gwasanaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd mae angen sgubo hwyneb ffordd rhwng Bryn Mawddach a Capel Soar, Taicynhaeaf.
